# Cofrestrfa Tir EF

## Cydsynio i ran o deitl(au) cofrestredig gan gynrychiolydd(wyr) personol

# AS3

**Dylai unrhyw rannau o'r ffurflen nad ydynt yn cael eu teipio gael eu llenwi mewn inc du ac mewn prif lythrennau.**

Os bydd angen mwy o le arnoch na'r hyn sydd ar gael mewn panel, ac mae'ch meddalwedd yn caniatáu hynny, gallwch ehangu unrhyw banel yn y ffurflen. Fel arall defnyddiwch ddalen barhau CS a'i hatodi i'r ffurflen hon.

I gael gwybodaeth am sut mae Cofrestrfa Tir EF yn prosesu eich gwybodaeth bersonol, gweler ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

| Nodiadau | Panel |
|---|---|
| Gadewch yn wag os na chofrestrwyd eto. | 1 Rhif(au) teitl y gwneir y cydsyniad ohono: |
| Pan gyflwynir cais am gofrestriad, dylid rhoi'r rhif(au) teitl hyn ym mhanel 2 ar Ffurflen AP1. | 2 Rhif(au) teitl eraill y mae materion yn y cydsyniad hwn i'w cofrestru neu eu nodi ar eu cyfer, os oes rhai: |
| Rhowch y cyfeiriad, gan gynnwys y cod post, neu ddisgrifiad arall o'r eiddo a drosglwyddwyd. Dylid diffinio unrhyw eithriadau diriaethol, fel mwynfeydd a mwynau.<br><br>Rhowch 'X' yn y blwch priodol a chwblhewch y datganiad.<br><br>Er enghraifft 'gydag amlinelliad coch'.<br><br>Er enghraifft 'gydag amlinelliad ac wedi ei rifo 1 mewn glas'.<br><br>Rhaid i unrhyw gynllun a gyflwynwyd gael ei lofnodi gan y trosglwyddwr. | 3 Eiddo:<br><br>Mae'r eiddo wedi ei ddynodi<br>☐ ar y cynllun atodedig ac wedi ei ddangos:<br>☐ ar gynllun(iau) teitl y teitl(au) uchod ac wedi ei ddangos: |
| Cofiwch ddyddio'r cydsyniad hwn â'r dyddiad cwblhau, ond nid cyn iddi gael ei llofnodi a'i thystio. | 4 Dyddiad: |
| Rhowch enw llawn. | 5 Enw'r perchennog ymadawedig: |
| Rhowch enw(au) llawn yr **holl** unigolion sy'n cydsynio'r eiddo.<br><br>Cwblhewch fel y bo'n briodol os yw'r cynrychiolydd personol yn gwmni.<br><br>Nodwch rif adnabod yr endid tramor a ddyroddir gan Dŷ'r Cwmnïau ar gyfer y cynrychiolydd personol yn unol â Deddf Troseddau Economaidd (Tryloywder a Gorfodi) 2022. Os nad yw'r rhif adnabod yn ofynnol, gallwch nodi 'ddim yn ofynnol' yn lle.<br><br>Ceir rhagor o fanylion am endidau tramor yng nghyfarwyddyd ymarfer 78: endidau tramor. | 6 Cynrychiolydd personol y perchennog ymadawedig:<br><br>Ar gyfer cwmnïau corfforedig yn y DU/Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig<br>Rhif cofrestredig y cwmni neu'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig gan gynnwys unrhyw ragddodiad:<br><br>Ar gyfer endidau tramor<br>(a) Tiriogaeth ei gorffori neu ei ffurfio:<br><br>(b) Rhif adnabod yr endid tramor a ddyroddir gan Dŷ'r Cwmnïau, gan gynnwys unrhyw ragddodiad:<br><br>(c) Lle bo'r endid yn gwmni sydd â lle busnes yn y Deyrnas Unedig, y rhif cofrestredig, os oes un, a ddyroddir gan Dŷ'r Cwmnïau, gan gynnwys unrhyw ragddodiad: |

Rhowch enw(au) llawn yr **holl** unigolion sydd i'w nodi'n berchnogion cofrestredig.

Cwblhewch fel y bo'n briodol os yw'r trosglwyddai yn gwmni. Hefyd, ar gyfer cwmni tramor, oni bai bod trefniadau wedi eu gwneud gyda Chofrestrfa Tir EF, cyflwynwch naill ai dystysgrif yn Ffurflen 7 yn Atodlen 3 i Reolau Cofrestru Tir 2003 neu gopi ardystiedig o'r cyfansoddiad yn Gymraeg neu yn Saesneg, neu dystiolaeth arall a ganiateir gan reol 183 o Reolau Cofrestru Tir 2003.

Nodwch rif adnabod yr endid tramor a ddyroddir gan Dŷ'r Cwmnïau ar gyfer y trosglwyddai yn unol â Deddf Troseddau Economaidd (Tryloywder a Gorfodi) 2022. Os nad yw'r rhif adnabod yn ofynnol, gallwch nodi 'ddim yn ofynnol' yn lle.

Ceir rhagor o fanylion am endidau tramor yng nghyfarwyddyd ymarfer 78: endidau tramor.

7 Trosglwyddai i'w gofnodi yn y gofrestr:

Ar gyfer cwmnïau corfforedig yn y DU/Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig

Rhif cofrestredig y cwmni neu'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig gan gynnwys unrhyw ragddodiad:

Ar gyfer endidau tramor

(a) Tiriogaeth ei gorffori neu ei ffurfio:

(b) Rhif adnabod yr endid tramor a ddyroddir gan Dŷ'r Cwmnïau, gan gynnwys unrhyw ragddodiad:

(c) Lle bo'r endid yn gwmni sydd â lle busnes yn y Deyrnas Unedig, y rhif cofrestredig, os oes un, a ddyroddir gan Dŷ'r Cwmnïau, gan gynnwys unrhyw ragddodiad:

Gall pob trosglwyddai roi hyd at dri chyfeiriad ar gyfer gohebu, a rhaid i un ohonynt fod yn gyfeiriad post boed yn y DU neu beidio (gan gynnwys cod post, os oes). Gall y cyfeiriadau eraill fod yn unrhyw gyfuniad o gyfeiriad post, rhif blwch DX yn y DU neu gyfeiriad ebost.

8 Cyfeiriad(au) arfaethedig y trosglwyddai ar gyfer gohebu i'w gofnodi yn y gofrestr:

9 Mae'r cynrychiolydd personol yn trosglwyddo'r eiddo i'r trosglwyddai

Rhowch 'X' mewn unrhyw flwch sy'n gymwys.

Ychwanegwch unrhyw addasiadau.

10 Mae'r cynrychiolydd personol yn trosglwyddo gyda

- ☐ gwarant teitl llawn
- ☐ gwarant teitl cyfyngedig

Os oes mwy nag un trosglwyddai, rhowch 'X' yn y blwch priodol.

Cwblhewch fel y bo angen.

Bydd y cofrestrydd yn cofnodi cyfyngiad Ffurf A yn y gofrestr *oni bai*:

- y rhoddir 'X':
  - yn y blwch cyntaf, neu
  - yn y trydydd blwch a bod manylion yr ymddiried neu'r offeryn ymddiried yn dangos bod y ceiswyr i ddal yr eiddo ar ymddiried ar eu cyfer eu hunain yn unig neu fel cyd-denantiaid, *neu*
- ei bod yn glir wrth lenwi'r ffurflen JO a gyflwynwyd gyda'r cais hwn bod y trosglwyddeion i ddal yr eiddo ar ymddiried ar eu cyfer eu hunain yn unig fel cyd-denantiaid.

Gweler *Cydberchnogaeth* a *chyfarwyddyd ymarfer 24: ymddiriedau tir preifat* am arweiniad pellach. Mae'r ddau ar gael o wefan GOV.UK.

11 Datganiad o ymddiried. Mae mwy nag un trosglwyddai a

- ☐ byddant yn dal yr eiddo ar ymddiried ar eu cyfer eu hunain fel cyd-denantiaid
- ☐ byddant yn dal yr eiddo ar ymddiried ar eu cyfer eu hunain fel tenantiaid cydradd â chyfrannau cyfartal
- ☐ byddant yn dal yr eiddo ar ymddiried:

Defnyddiwch y panel hwn ar gyfer:

- diffinio termau na ddiffiniwyd uchod
- hawliau a roddwyd neu a neilltuwyd
- cyfamodau cyfyngu
- cyfamodau eraill
- cytundebau a datganiadau
- unrhyw ddatganiadau gofynnol neu a ganiateir
- darpariaethau eraill a gytunwyd.

Os ydych yn drawsgludwr, gallwch hefyd gynnwys y dystysgrif ganlynol yn lle amgáu'r dogfennau a enwyd:

"Fi yw trawsgludwr y ceisydd ac rwy'n ardystio fy mod yn dal y gwreiddiol neu gopi ardystiedig neu swyddfa o'r grant profiant, llythyrau gweinyddu neu orchymyn llys. Rwy'n cadarnhau y rhoddwyd y grant profiant, llythyrau gweinyddu neu orchymyn llys yn y Deyrnas Unedig."

Gallwch ychwanegu at, newid, ail-leoli neu adael allan yr isbenawdau a bennwyd.

Dylai unrhyw dir arall yr effeithir arno gan hawliau a roddwyd neu a neilltuwyd neu gan gyfamodau cyfyngu gael ei ddiffinio trwy gyfeirio at gynllun.

Dylai unrhyw dir arall yr effeithir arno gael ei ddiffinio trwy gyfeirio at gynllun a'r rhifau teitl y cyfeiriwyd atynt ym mhanel 2.

## 12 Darpariaethau ychwanegol

### Diffiniadau

### Hawliau a roddwyd er lles yr eiddo

Dylai unrhyw dir arall yr effeithir arno gael ei ddiffinio trwy gyfeirio at gynllun a'r rhifau teitl y cyfeiriwyd atynt ym mhanel 2.

### Hawliau a neilltuwyd er lles tir arall

Dylech gynnwys geiriau'r cyfamod.

### Cyfamodau cyfyngu gan y trosglwyddai

| | |
|---|---|
| Dylech gynnwys geiriau’r cyfamod. | Cyfamodau cyfyngu gan y trosglwyddwr |
| Rhowch unrhyw ddatganiadau, tystysgrifau neu geisiadau gofynnol neu a ganiateir yma ac unrhyw ddatganiadau, ac ati a gytunwyd. | Arall |

Rhaid i'r trosglwyddwr gyflawni'r trosglwyddiad hwn fel gweithred gan ddefnyddio'r lle gyferbyn. Os oes mwy nag un trosglwyddwr, rhaid iddynt i gyd gyflawni. Caiff ffurfiau cyflawni eu rhoi yn Atodlen 9 i Reolau Cofrestru Tir 2003. Os yw'r trosglwyddiad yn cynnwys cyfamodau neu ddatganiadau'r trosglwyddai neu os yw'n cynnwys cais gan y trosglwyddai (megis ar gyfer cyfyngiad), rhaid iddo gael ei gyflawni gan y trosglwyddai hefyd.

Os oes mwy nag un trosglwyddai ac mae panel 11 wedi ei lenwi, rhaid i bob trosglwyddai gyflawni'r trosglwyddiad hwn hefyd i gydymffurfio â'r gofynion yn adran 53(1)(b) o Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925 yn ymwneud â'r datganiad ymddiried tir. Gweler *Cydberchnogaeth* a *chyfarwyddyd ymarfer 24: ymddiriedau tir preifat* am arweiniad pellach.

Gwelir enghreifftiau o'r ffurf gyflawni gywir yng nghyfarwyddyd ymarfer 8: cyflawni gweithredoedd. Fel rheol, rhaid i dyst lofnodi, ac ychwanegu ei enw a'i gyfeiriad hefyd.

Cofiwch ddyddio'r cydsyniad hwn ym mhanel 4.

| 13 | Cyflawni |
|---|---|
| | |

RHYBUDD

Os ydych yn rhoi gwybodaeth mewn modd anonest neu'n gwneud datganiad y gwyddoch ei fod, neu a allai fod yn anwir neu'n gamarweiniol, ac yn bwriadu, trwy wneud hynny, gynnig mantais i chi neu rywun arall, neu achosi colled neu'r risg o golled i rywun arall, gallech fod yn cyflawni'r trosedd o dwyll o dan adran 1 o Ddeddf Twyll 2006, a'r uchafgosb ar gyfer hyn yw carchar o 10 mlynedd neu ddirwy ddiderfyn, neu'r ddau.

Os nad ydych yn llenwi'r ffurflen hon gyda'r gofal priodol gall diogelwch o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 gael ei golli os yw camgymeriad yn cael ei wneud yn y gofrestr o ganlyniad i hyn.

O dan adran 66 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002 mae'r rhan fwyaf o ddogfennau (gan gynnwys y ffurflen hon) a gedwir gan y cofrestrydd sy'n ymwneud â chais a gyflwynir i'r cofrestrydd neu y cyfeirir ato yn y gofrestr ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio a'u copïo. Os ydych yn credu bod dogfen yn cynnwys gwybodaeth niweidiol, gallwch wneud cais i'r rhan honno o'r ddogfen gael ei heithrio trwy ddefnyddio Ffurflen EX1, o dan reol 136 o Reolau Cofrestru Tir 2003.

© Hawlfraint y Goron (cyf: LR/HO) 04/24